Cyngor Tref Caerfyrddin
Neuadd Ddinesig San Pedr
Maes Nott
Caerfyrddin SA31 1PG
Ffôn: (01267) 235199
Ffacs: (01267) 221607

Carmarthen Town Council
St. Peter's Civic Hall
Nott Square
Carmarthen SA31 1PG
Tel: (01267) 235199
Fax: (01267) 221607

Noddwyr

E D Davies MBE
("Ifan JCB")
J.H.MORSE AND SONS Ltd.

Sponsors

Gwobrau Chwaraeon Tref Caerfyrddin 2019
2019 Carmarthen Town Sports Awards

Ebost/Email: gejames@carmarthentowncouncil.gov.uk

Annwyl Gyfaill

Mae'n bleser gan Gyngor Tref Caerfyrddin eich gwahodd i gyflwyno enwebiadau ar gyfer Gwobrau Chwaraeon Tref Caerfyrddin 2019.

Fe ofynnir i glybiau chwaraeon gyflwyno eu henwebiadau am yr un ar ddeg categori a bydd panel sydd wedi ei ddewis yn penderfynu ar yr enillwyr ym mhob categori. Fe wahoddir yr enillwyr i dderbyn eu gwobrau mewn Noswaith Gyflwyno i'w chynnal ym mis Ionawr 2020, yng Nghlwb Rygbi Cwins Caerfyrddin.

Fe wahoddir eich clwb i gyflwyno enwebiadau i'r weithred chwaraeon addas i'ch clwb, o fewn yr un ar ddeg categori a'u hanfon at Eleri James yn swyddfa Cyngor Tref Caerfyrddin dim hwyrach na dydd Llun 25ain o Dachwedd 2019 (trwy'r bost neu e-bost ar gejames@carmarthentowncouncil.gov.uk). Rhaid cwblhau'r ffurflen yn llawn neu efallai na fydd yr enwebiad yn cael ei ystyried.

Yr un ar ddeg categori i gynnwys: Gwryw Hŷn, Benyw Hŷn, Gwryw Iau o dan13, Benyw Iau o dan 13, Gwryw Canolradd o dan 16, Benyw Ganolradd o dan 16, Gwryw Ieuenctid o dan 19, Benyw Ieuenctid o dan 19, Tîm Iau, Tîm Hŷn a Hyfforddwr/Trefnydd/Gwirfoddolwr gyda dwy wobr ym mhob categori, cyntaf ag ail yn gwneud cyfanswm o ddau ddeg dau o enillwyr.

Wedi i'r panel ymgynnull i ystyried a phenderfynu ar yr enillwyr yn yr un ar ddeg categori, yna fe wahoddir y cyfranogwr llwyddiannus i fynychu'r noson wobrwyo a fydd yn cynnwys derbyniad bwffe.

Y mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn ffodus iawn o gael dau noddwr, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cefnogaeth.

Gobeithio fod eich clwb yn barod i gyflwyno enwebeion ac edrychwn ymlaen at dderbyn rhestr o aelodau eich clwb yr ydych chi yn barnu fel yr unigolion a thîm sydd yn haeddu derbyn gwobr fel cydnabyddiaeth fach o'u hymrwymiad ag ymdrech yn eu chwaraeon.

Ni ddatgelir manylion cyswllt yr enwebydd na'r enwebai i neb heblaw am gyhoeddi enwau'r enillwyr.

Yn gywir

Alun J Harries
Clerc y Dref